Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

# Cynhyrchu

Cyngor Celfyddydau Cymru | Tachwedd 2018

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

# Cynhyrchu

## Pwrpas

Cynorthwyo gwaith i greu cynnyrch artistig o safon uchel i'w gyflwyno i gynulleidfaoedd.

## Beth rydyn ni am ei gyflawni

Rydyn ni am ariannu cynyrchiadau arloesol a symbylol. Mae diddordeb arbennig gennym mewn gwaith newydd a chyfoes; mewn gwaith sy'n estyn allan at gynulleidfaoedd newydd ac yn eu hymgysylltu.

Ansawdd y gwaith rydyn ni'n ei gynorthwyo trwy'r maes gwaith hwn fydd yn diffinio statws Cymru fel cenedl artistig. Mae'r cymorth yma'n hanfodol am ei fod yn galluogi canolfannau ac orielau i raglennu amrywiaeth eang o waith penigamp o Gymru.

Rydyn ni am i gynulleidfaoedd ledled Cymru fod yn gallu cyrchu'r gweithgarwch celfyddydol gorau posibl, felly rhaid i'r gwaith artistig rydyn ni'n ei gynorthwyo fod yn addas i'w gyflwyno yng nghanolfannau celfyddydau, orielau, theatrau a neuaddau cyngerdd Cymru, naill ai yn rhan o daith neu mewn un lleoliad neu oriel. Gallwn gynorthwyo gwaith safle penodol ac awyr agored hefyd.

Rydyn ni am gynorthwyo'r hyn rydyn ni'n eu galw'n brosiectau "**teithio cenedlaethol**" hefyd, sy'n golygu bod rhaid i chi deithio i o leiaf un lleoliad neu oriel mewn tri o bedwar rhanbarth Cymru. Byddwn ni'n esbonio mwy am sut rydyn ni'n diffinio'r rhanbarthau hyn isod.

Rydyn ni am gynorthwyo cynyrchiadau ym mhob math o gelfyddyd, (yn ogystal â gwaith sy'n croesi'r ffiniau rhwng mathau o gelfyddyd, fel syrcas), sy'n dangos eu bod o safon uchel a bod ganddynt weledigaeth artistig glir.

Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gefnogi rhai mathau o brosiectau. Mae hyn yn golygu, pan fydd angen i ni ddewis rhwng prosiectau cymwys o safon debyg, y byddwn ni'n blaenoriaethu'r canlynol:

- Prosiectau lle mae cynhyrchwyr neu guraduron yn cydweithio â chanolfannau neu orielau i gydgomisiynu a chyflwyno'r celfyddydau gweledol a chymhwysol ar raddfa ehangach

- Prosiectau sy'n ymwneud ag ysgrifennu gwaith newydd ar gyfer y theatr, neu â chreu coreograffi neu fformatau newydd sydd wedi cael eu profi a'u gwerthuso try broses o waith ymchwil a datblygu

- Prosiectau sy'n targedu ac yn estyn allan at blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg

- Prosiectau sy'n targedu ac yn estyn allan at bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig (er enghraifft ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf)

- Prosiectau sy'n targedu ac yn estyn allan at bobl â "nodweddion gwarchodedig".

Ymadrodd a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw "nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, rhyw, cyfeiriadaeth rywiol, crefydd neu gredo. Gwnaeth y Ddeddf hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl ar y seiliau hyn.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru am gefnogi cynhyrchu gwaith newydd. Ond weithiau gall fod achos cryf dros adfywio teitl penodol: er enghraifft, pan fo'r cynhyrchiad wedi rhedeg am gyfnod byr ond dengys ymateb y gynulleidfa fod y posibilrwydd o roi iddo daith estynedig. Felly, derbyniwn geisiadau am adfywio gwaith, ond dim ond pan fo rheswm amlwg sy'n seiliedig ar dystiolaeth dros ei wneud, yn ogystal â strategaeth gadarn i ddatblygu cynulleidfa.

Mae diddordeb gennym ddenu prosiectau sydd â'r potensial i deithio'n ehangach y tu hwnt i gyfnod y grant, mewn rhannau eraill o Brydain neu'n rhyngwladol.

## Prosiectau na fyddwn yn eu cynorthwyo

Ni fyddwn ni'n cynorthwyo:

- Prosiectau nad ydynt wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r cynulleidfaoedd y maent yn ceisio eu cyrraedd, neu unrhyw rwystrau a allai eu hatal rhag ymgysylltu

- Prosiectau nad ydynt wedi dangos ymrwymiad i gyflawni gwaith o ansawdd uchel

## Beth fydd ei hangen gennych chi

Byddwn ni'n disgwyl i bob prosiect osod pwyslais cadarn ar ymgysylltu cynulleidfaoedd ac ar bartneriaethau ystyrlon â chanolfannau ac orielau.

Mae yna ofynion penodedig ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau hefyd:

### Teithio

Rydyn ni'n credu bod teithiau llwyddiannus yn llewyrchu trwy bartneriaeth gadarnhaol a blaengar rhwng y cwmni cynhyrchu a chanolfannau. Ni fyddwn yn ystyried ariannu teithiau oni bai bod yna dystiolaeth bod o leiaf tri chanolfan celfyddydau neu oriel yng Nghymru wedi rhoi ymrwymiad ystyrlon i'ch prosiect. Gallai hynny fod ar ffurf cynllun marchnata sydd

wedi ei ysgrifennu ar y cyd, llythyr sy'n amlinellu'r elfennau y bydd pob partner yn eu cyflwyno i'r prosiect a / neu gadarnhad o gyllid partneriaeth. Byddwn ni'n disgwyl gweld eich partneriaeth yn dangos ymroddiad go iawn i ddatblygu a chynnal cynulleidfaoedd. Byddwn ni am i'ch cais gael ei ategu gan gynllun datblygu cynulleidfaoedd cadarn, sy'n dangos yn glir sut y byddwch chi'n targedu cynulleidfaoedd difreintiedig neu sydd wedi dadrithio.

Os ydych chi'n cyflwyno cais am brosiect teithiol, yna bydd angen i chi ddarparu'r rhestr gychwynnol o ganolfannau ac orielau teithio rydych wedi bod yn trafod â nhw, a chyflwyno tystiolaeth o'u hymrwymiad i raglennu eich gwaith. Bydd angen i chi ddweud wrthym pam eich bod chi wedi dewis y canolfannau neu'r orielau o dan sylw ar gyfer eich taith.

## Teithio'n Genedlaethol

Mae cyllid "**teithio'n genedlaethol**" yn cynorthwyo'r gwaith o gynhyrchu a mynd â gwaith graddfa fwy ym mhob math o gelfyddyd ar daith ar draws Cymru. Mae'r prosiectau hyn yn galw am fuddsoddiad sylweddol gennym ni, ac felly dim ond y rhai o'r ansawdd uchaf a fydd yn cael cymorth.

Er mwyn cyflwyno cais ar gyfer prosiect i **deithio'n genedlaethol**, rhaid i'ch sefydliad fod yng Nghymru. Byddwn yn ystyried cynorthwyo partneriaethau creadigol rhwng cwmnïau, canolfannau ac orielau yng Nghymru, â rhai mewn mannau eraill, cyhyd â'ch bod chi'n gallu dangos sut y bydd eich prosiect o fudd i unigolion creadigol proffesiynol, sefydliadau'r celfyddydau a chynulleidfaoedd yng Nghymru.

Rydyn ni'n disgwyl i chi fynd ar daith i o leiaf tri chanolfan neu oriel sydd dan reolaeth broffesiynol ledled Cymru:

- Rhaid i un fod yn rhanbarth y **gogledd** (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam)
- Rhaid i un fod yn rhanbarth y **de-orllewin** (Sir Gâr, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys neu Abertawe)
- Rhaid i un naill ai fod yn rhanbarth y **de-ddwyrain** (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd neu Torfaen) neu yn rhanbarth **canol y de** (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf neu Fro Morgannwg)

Os bydd eich cais am gyllid **teithio cenedlaethol** yn llwyddiannus, bydd angen i ni gael cadarnhad ysgrifenedig bod eich taith yn cwmpasu o leiaf tri o'r pedwar rhanbarth cyn y gallwn dalu unrhyw ran o'r grant.

Rhaid i geisiadau **teithio cenedlaethol** fod yn neilltuol, a rhaid iddynt ddiwallu'r holl ofynion ar gyfer prosiectau teithiol sydd wedi cael eu disgrifio uchod. Byddwn ni'n chwilio am wybodaeth ystyriol a darbwyllol am:

- Resymeg eich prosiect (sy'n esbonio eich dewis o ran partner/iaid creadigol, artist/iaid, gwaith, teitl neu thema) a rhaid i hyn fod yn ddarbwyllol
- Sut rydych chi'n bwriadu ymgysylltu a chynnal cynulleidfaoedd ar gyfer eich prosiect, trwy gyflwyno eich cynlluniau marchnata a datblygu cynulleidfaoedd

- Y dialog parhaus ac ystyrlon â'ch partneriaid yn y daith. Byddwn ni am i'r dystiolaeth ysgrifenedig o gefnogaeth rydych chi'n ei chael ganddynt ddangos hyn, a rhaid i hyn fynd y tu hwnt i fynegiant cyffredinol o ddiddordeb, gan ddangos yn hytrach ymrwymiad ac ymroddiad sylweddol i'r prosiect.

## Eich dewis o ran cynhyrchiad drama

Yn achos ceisiadau am gynyrchiadau drama, byddwn ni am ddeall pam eich bod chi wedi dewis teitl neu thema benodol. Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gynorthwyo cynyrchiadau o waith newydd o safon uchel o Gymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch am greu a chyflwyno cynhyrchiad newydd o ansawdd uchel o ddarn sy'n bodoli eisoes, efallai un o'r clasuron, neu ddrama gyfoes o'r tu hwnt i Gymru. Bydd angen i chi gyflwyno achos cadarn a darbwyllol i esbonio pam eich bod chi'n cynhyrchu'r teitl hwn, a sut y mae'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru heddiw.

## Gwaith Safle-penodol ac Awyr Agored

Byddwn ni'n cynorthwyo â'r gwaith o gynhyrchu gwaith safle-penodol ac awyr agored hefyd cyhyd a'ch bod chi'n gallu dangos i ni fod y lleoliad yn addas ac yn hygyrch, a bod eich cynllun marchnata yn gallu dangos sut rydych chi'n bwriadu denu cynulleidfaoedd.

Hyd yn oed os ydych chi'n datblygu cynhyrchiad safle-penodol na fydd yn digwydd mewn canolfan gelfyddydau gydnabyddedig, byddwn ni'n disgwyl i chi ddenu cymorth partneriaeth gan ganolfannau neu orielau yn yr ardal, am y bydd hyn yn hanfodol i ymgysylltu cynulleidfaoedd a datblygu eich gwaith.

## Hygyrchedd

**Y Celfyddydau Perfformio:** Byddwn ni'n disgwyl i chi ystyried sut byddwch chi'n gwneud eich cynhyrchiad mor hygyrch â phosibl. **Bydd disgwyl i o leiaf un o'ch perfformiadau fod yn hygyrch, hyd yn oed os yw eich gwaith yn ymddangos mewn un canolfan yn unig neu os yw'n waith safle-penodol**. Er enghraifft, os bydd eich gwaith yn ymddangos dros ychydig nosweithiau, yna rhai i o leiaf un o'r perfformiadau fod yn hygyrch. Os ydych chi'n cyflwyno un sioe yn unig, yna dylai honno fod yn hygyrch. Gallai hynny olygu codi arwyddion cyffyrddadwy, trefnu dehongliad iaith arwyddion, perfformiadau â chapsiynau neu ddisgrifiadau sain, neu greu rhaglenni braille er enghraifft.

**Y Celfyddydau Gweledol a  Chymhwysol:**  Yn achos arddangosfeydd y celfyddydau gweledol a chymhwysol, **boed yn rhai teithiol neu mewn un canolfan neu oriel, byddem yn disgwyl i chi ystyried sut y gallech wneud y gwaith yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd**. Gallwch wneud hyn mewn nifer o ffyrdd, fel codi arwyddion cyffyrddadwy, paratoi canllawiau print bras i'r oriel, chynhyrchu planiau a chanllawiau oriel mewn braille, paratoi teithiau sain a deunyddiau disgrifio gweledol, paneli dehongli, teithiau trin a thrafod lle bo modd, neu gyflwyno deunyddiau a gwrthrychau sy'n annog ymwelwyr i archwilio trwy gyffwrdd, er enghraifft.

**Pob prosiect:**  Mae yna bethau eraill y gallwch eu gwneud i wneud eich gwaith, sut mae pobl yn cael gwybod amdano a lle mae e, **mor hygyrch â phosibl**. Mater i chi yw **adnabod beth sy'n cyd-fynd ag anghenion eich cynulleidfaoedd** a'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan. Gallwch gynnwys y costau hyn yng nghyllideb eich prosiect.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein Y Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau Cynhyrchu a bydd y rhain yn eich cynorthwyo wrth lenwi'r ffurflen gais.

## Pwy gaiff wneud cais

Byddwn ni'n croesawu ceisiadau gan gwmnïau proffesiynol, canolfannau, orielau a sefydliadau'r celfyddydau. Gallwch wirio bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais trwy ddarllen ein dogfen Cychwyn Arni.

### Y Cyllid sydd ar Gael

Gallwch ymgeisio am hyd at **75%** o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Gallwch gyflwyno ceisiadau ar y lefelau canlynol:

- Grantiau bach rhwng £250 a £5,000
- Grantiau mawr rhwng £5,001 a £30,000

O dan amgylchiadau neilltuol, gallwch wneud cais am hyd at £100,000 ar gyfer prosiectau **teithio cenedlaethol**. Bydd angen i chi drafod hyn â ni a chael ein cydsyniad cyn mynd ati i lunio eich cais.

Byddwn ni'n ystyried ariannu hyd at 15% o gyfanswm costau cymwys prosiectau i hwyluso teithio y tu hwnt i Gymru, os yw hynny'n rhan o daith sy'n digwydd yng Nghymru'n bennaf. Bydd angen i chi gyflwyno rhesymeg artistig, ariannol neu fusnes glir yn hyn o beth. Mae ein Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau Cynhyrchu yn esbonio hyn yn fanylach.

## Ceisio ar ôl prosiect ymchwil a datblygu

Os ydych chi'n bwriadu gwneud cais ar ôl cwblhau cyfnod ymchwil a datblygu, byddwn ni'n disgwyl i chi fod wedi gadael cyfnod rhesymol i ystyried a gwerthuso'r canlyniadau cyn symud ymlaen i wneud cais am gyllid Cynhyrchu.

## Pryd cewch wneud cais

### Grantiau Bach

Nid oes dyddiadau cau ar gyfer grantiau bach, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **chwech wythnos gwaith** rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect. **Os ydych chi'n cyflwyno'ch cais cyntaf i ni, yna rhaid i chi wneud cais ar y lefel hon.**

**Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10fed o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31ain o Orffennaf 2019.**

### Grantiau Mawr

Dyma'r dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau am grantiau mawr:

- 5pm Dydd Mercher 23ain Ionawr 2019 (yn cynnwys Teithio Cenedlaethol)
- 5pm Dydd Mercher 8fed Mai 2019 (yn cynnwys Teithio Cenedlaethol)

Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **naw wythnos gwaith** rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect.

### Pryd i wneud cais am brosiectau teithio cenedlaethol

Fel arfer, dim ond ar y dyddiadau cau am grantiau mawr ym misoedd Awst ac Ionawr y ceir cyflwyno ceisiadau am brosiectau **teithio cenedlaethol**. Gan ein bod yn adolygu ein rhaglenni arian Loteri yn ystod 2018-19, byddwn yn derbyn ceisiadau teithio cenedlaethol ym mis Ionawr a Mai 2019, y ddau ddyddiad cau sydd wedi eu cyhoeddi.

## Pa mor aml y cewch wneud cais

Rydyn ni am sicrhau bod ein cyllid ar gael mor eang â phosibl, felly mae yna gyfyngiad ar sawl gwaith y gallwch gael cyllid trwy Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau. Gall Sefydliadau ddal un grant o'r cynllun hwn mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis.

**Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau eich prosiect i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis.** Yr unig bryd y byddwn yn llacio'r rheol yma yw os ydych yn ceisio am arian ar gyfer gwaith datblygu, lle ystyriwn **un** grant ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y pedwar maes canlynol:

- Datblygu Cynulleidfaoedd
- Datblygu Busnes a Sefydliadol
- Ymchwil a Datblygu
- Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Er enghraifft, gall eich sefydliad dderbyn grant o'r meysydd Cynhyrchu ac Ymchwil a Datblygu mewn un flwyddyn, ond ddim am ddau brosiect Ymchwil a Datblygu.

Nid yw'r ffaith y cewch gyflwyno ail gais mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn gwarantu llwyddiant y cais.

Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau eich prosiect i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis. Er enghraifft, os cawsoch gyllid ar gyfer prosiect a gychwynnodd ar 1 Medi 2015, a'ch bod am gyflwyno cais arall, yna rhaid iddo fod am weithgaredd a fydd yn dechrau deuddeg mis yn ddiweddarach, hynny yw, ar 1 Medi 2016 neu'n ddiweddarach. Mae'n bwysig cofio y cewch gyflwyno'r cais cyn diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis, ond ni allwch gynllunio bod eich gweithgaredd yn cychwyn nes bod blwyddyn wedi mynd heibio.

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

## Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein.

Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio

gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais. Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

## Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes Cynhyrchu:

- Y Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau Cynhyrchu
- Taflen Wybodaeth: Datblygu Cyflwyniadau Theatr a Dawns
- Taflen Wybodaeth: Gwneud eich cynhyrchiad yn hygyrch i gynulleidfa eang
- Cyngor Celfyddydau Cymru Arweiniad Cydraddoldeb

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: grantiau@celf.cymru